



# Deufis

Eglwysy Bedyddwyr Gogledd Teifi

Chwefror-Mawrth 2024

## Trefn yr Oedfaon

(Am wybodaeth ddiweddaraf am oedfaon Brynhafod,  
gweler y dudalen What's app)

### Sul 4 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y pnavn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y pnavn	Gweinidog—Cymun

### Sul 11 Chwefror

Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Aberduar a Seion (yn Seion)	2.00 y pnavn	Gweinidog—Cymun

### Sul 18 Chwefror

Noddfa	9.30 y bore	Gweinidog
Aberduar	11.00 y bore	Gweinidog

### Sul 25 Chwefror

Aberduar	10.00 y bore	Ffred Ffransis
Bethel a Noddfa	10.15 y bore	Parchg Peter Thomas
Seion a Brynhafod (yn Seion)	2.00 y pnavn	Parchg Peter Thomas

**Sul 3 Mawrth**

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y pnawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y pnawn	Gweinidog—Cymun

**Sul 10 Mawrth**

Bethel	10.15 y bore	Delyth Phillips—Cymun
Aberduar a Seion (yn Seion)	2.00 y pnawn	Gweinidog—Cymun

**Sul 17 Mawrth**

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Noddfa	10.00 y bore	Nigel Davies
Brynhafod a Seion (Oedfa plant a theulu dan ofal Nigel Davies ym Mrynhafod)	2.00 y pnawn	

**Sul 24 Mawrth**

Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion, Brynhafod ac Aberduar (ym Mrynhafod)	2.00 y pnawn	Gweinidog

**Sul 31 Mawrth**

Aberduar, Seion a Brynhafod (yn Aberduar)	— 9.30	<b>Sul y Pasg</b> Gweinidog—Cymun
Noddfa, Bethel a Chaersalem (yn Noddfa)	11.00	Gweinidog—Cymun

**GORYMDAITH GWENER Y GROGLITH,  
29 MAWRTH, LLAMBED**

Yn codi o Noddfa 10.30; oedfa fer yn Neuadd San Pedr 11.00  
Lluniaeth ysgafn i ddilyn



# NODDFA

## Gweithgareddau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

### Oedfa'r Ifanc

Er gwaethaf yr anawsterau o gael y plant at ei gilydd i baratoi, llwyddwyd i gynnal oedfa arbennig yn Noddfa i ddathlu Gŵyl y Geni. Trwy gyfrwng darlenniadau o'r Beibl, gweddiâu, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu fe'n harweiniwyd at y preseb mewn ffordd syml ond effeithiol gan y plant, y bobl ifanc a'r rhieni. Derbyniwyd canmoliaeth uchel am eu cyfraniadau graenus a'r plant i gyd yn serennu a chodi gwên. Ar ddiwedd yr oedfa pwy alwodd heibio ond Siôn Corn gan ddsbarthu anrhegion i'r rhai oedd wedi cymryd rhan. Yna bu pawb yn mwynhau parti ardderchog i orffen prynhawn bendithiol a phleserus iawn. Diolch yn fawr i bawb a fu ynghlwm â'r paratodau.



### Oedfa Garolau

Cynhaliwyd Oedfa Garolau yng ngolau kannwyll yn Noddfa ar 7 Ionawr. Roedd y capel wedi ei addurno yn hardd gan greu naws hyfryd. Croesawyd pawb yn gynnes ac offrymwyd gweddi agoriadol gan ein gweinidog. Ymunwyd i ganu nifer o garolau pobl-ogaidd a chafwyd darlenniadau deallus o'r Beibl. Hefyd mwynhawyd unawdau swynol gan Elan a Lowri Elen. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena a Llinos a threfnwyd yr oedfa gan Ann.



Casglwyd swm sylweddol tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch yn fawr iawn i bawb.

# Lluniau Dathliadau Nadolig y Cylch o'r top: Aberduar, Bethel, Brynhafod

